**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Hydref 2020

Annwyl John

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth i'r Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac roeddwn eisiau ysgrifennu at y Pwyllgor i rhoi fwy o fanylion ynghylch yr hyn y maent yn ei gynnwys

Er bod cyfran uchel o'r gwelliannau yr wyf wedi cyflwyno yn fach neu'n dechnegol eu natur neu’n ceisio egluro darpariaethau, gellid ystyried bod rhai yn fwy helaeth na gwelliannau sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 3.

Mae'r gwelliannau hyn yn deillio'n bennaf o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig a sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn parhau i fod ar waith i alluogi llywodraeth leol i barhau i weithredu yn ystod gweddill cyfnod y pandemig ac wedi hynny. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau hyn wedi'i lywio gan ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol o fewn llywodraeth leol a'r adborth ganddynt.

*Gwasanaethau ymchwil*

Yng Nghyfnod 2 cyflwynwyd gwelliant nad oedd yn ymwneud â'r Llywodraeth yn enw Delyth Jewell AS yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau *'wneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth ymchwil a chyngor i'w aelodau’.* Fel y dywedais yn ystod y trafodion Pwyllgor Cyfnod 2, rwy'n deall y bwriad y tu ôl i'r gwelliant hwn ac yn cytuno, er mwyn i aelodau’r prif gynghorau ymgymryd â'u rôl yn effeithiol, bod yn rhaid iddynt gael gafael ar wybodaeth amserol, gyfoes, gywir y mae ymchwil dda yn sail iddi.

Nid oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliant hwn gan fod darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mewn perthynas â rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, eisoes yn cynnwys y swyddogaeth o ddarparu cyngor a chymorth i aelodau, a bwriedir y bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ymchwil. Yn ystod trafodion y Pwyllgor ymrwymais i ymchwilio i botensial defnyddio canllawiau i sicrhau bod prif gynghorau yn ymwybodol y dylai'r cyngor a'r cymorth hwn gynnwys gwasanaethau ymchwil

O dan adran 8 o Fesur 2011, mae'n ofynnol i brif gyngor ddarparu unrhyw staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i'w Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd, yn ei farn ef, yn ddigonol i ganiatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darparu adnoddau o'r fath.

Rwy'n rhagweld y gallai'r canllawiau hyn fanylu ar fanteision gwasanaeth ymchwil a ariennir yn ddigonol i aelodau a nodi y dylai cynghorau ystyried sut y gallent ddyrannu adnoddau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o'r fath.

*Presenoldeb o Bell*

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â phresenoldeb o bell a fydd yn ymestyn y ddarpariaeth hon, yn barhaol, i'r ystod o gyrff llywodraeth leol a gwmpesir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ('Rheoliadau 2020’). Disodlir adran 48 o'r Bil, a ddiwygiodd adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gydag adran newydd sy'n gwneud y ddarpariaeth berthnasol o ran presenoldeb o bell i bob corff, nid prif gynghorau yn unig, ar wyneb y Bil.

Mae'r adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd ar sail rithwir yn gyfan gwbl, neu'n rhannol. Awdurdodau lleol yng nghyd-destun y darpariaethau hyn yw prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac awdurdod iechyd porthladd (ar gyfer ardal iechyd porthladd yng Nghymru o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984). Bydd hefyd yn ofynnol i brif gyngor wneud trefniadau mewn perthynas â chyfarfodydd y weithrediaeth, pwyllgorau, is-bwyllgorau ac yn y blaen.

*Cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol*

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, mae pandemig COVID-19 wedi datgelu bod darpariaethau cyfredol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol yn hen ffasiwn, yn enwedig y darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol sy'n llywodraethu sut y cofnodir cyfarfodydd, sut yr anfonir gwysion at aelodau, a sut y cyhoeddir dogfennau, gan gynnwys hysbysebion, agendâu a chofnodion.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant i ddisodli Atodlen 4 bresennol y Bil, gydag Atodlen newydd gyda'r pennawd "Hysbysiad o Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol, Mynediad at Ddogfennau a Phresenoldeb mewn Cyfarfodydd" i adlewyrchu'r pwnc estynedig.

Mae Rhan 1 o'r Atodlen newydd yn gwneud nifer o welliannau i'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Rhan 5A ac Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

(a) hysbysiadau o gyfarfodydd awdurdodau lleol yng Nghymru,
(b) mynediad at ddogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny a chyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'u cyhoeddi;
(c) cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus gan awdurdodau lleol nad ydynt yn ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol;
(d) cyhoeddi gwysion i aelodau fynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol.

Bydd y gwelliannau hyn yn berthnasol i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, cyd-fyrddau, cyd-bwyllgorau ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae

Abertawe (gan gynnwys eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau). Bydd rhai o'r diwygiadau hefyd yn berthnasol i gynghorau cymuned (gan gynnwys mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau a sut y cânt eu rhoi, a sut y cyhoeddir gwysion).

Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer y gwelliannau canlyniadol angenrheidiol sy'n deillio o'r diwygiadau presenoldeb o bell gan gynnwys diddymu adran 4 o Fesur 2011.

*Pwerau gwneud rheoliadau*

Er mwyn cwblhau'r gwaith o foderneiddio trefniadau cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol, ac yn hanfodol i gefnogi awdurdodau i symud ymlaen yn y byd wedi COVID-19, mae angen rhoi pwerau gwneud Rheoliadau i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gallu i ddiwygio a diddymu deddfwriaeth sylfaenol, mewn perthynas â:

(a) cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a chyhoeddi gwybodaeth
(b) cyfarfodydd cymunedol
(c) gwneud darpariaeth bellach neu wahanol ynghylch y dull o roi hysbysiad cyhoeddus y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei roi (paragraff 17 o Atodlen 4 i'r Bil).

Mae'r rhannau o ddarpariaethau am y materion hyn, a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n dyddio'n ôl i 1960, 1972 a 1985, yn helaeth, yn gymhleth ac wedi dyddio'n fawr. Mae geiriad a chynnwys y darpariaethau'n adlewyrchu'n glir fyd a ffyrdd o wneud busnes sy'n rhagflaenu'r rhyngrwyd a chyfathrebu electronig. Mae'r profiad o orfod cyflwyno Rheoliadau 2020 o ganlyniad i'r pandemig wedi amlygu pa mor frawychus yw diweddaru a newid y darpariaethau hyn, yn bennaf gan eu bod wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol - siawns mai dyma'r prif reswm pam nad yw'r diwygiadau hyn y mae mawr eu hangen erioed wedi'u gwneud. Mae'n werth nodi nad yw'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol yn gyson â darpariaethau cyfatebol ar gyfer cyrff democrataidd eraill, lle nodir trefniadau gweithdrefnol o'r fath mewn is-ddeddfwriaeth, neu reolau sefydlog.

Byddai darparu ar gyfer diwygio'r darpariaethau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn caniatáu, maes o law, i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cyfarfodydd diweddaraf y cyngor a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Bydd yr adolygiad yn gallu ystyried y profiad o weithio gyda'r trefniadau newydd a roddwyd ar waith ar gyfer y pandemig a pharhau drwy fy ngwelliannau arfaethedig.

Byddai'r pwerau, yr wyf yn bwriadu eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd, yn gadael trefniadau gweithdrefnol llywodraeth leol ar ffurf y gellir ei diweddaru a'i diwygio'n fwy hwylus yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Rhagwelaf y bydd y defnydd cyntaf o'r pwerau yn debygol o fod yn gymedrol ei natur, gyda Rheoliadau newydd yn cael eu cyfyngu'n bennaf i resymoli a symleiddio. Bydd Rheoliadau 2020, ynghyd â'r darpariaethau y cynigir eu mewnosod yn y Bil yng Nghyfnod 3, yn moderneiddio'r rheolau a'r gweithdrefnau yn sylweddol. Felly, rwyf o'r farn y byddai unrhyw Reoliadau newydd cynhwysfawr a wneir o dan y pwerau hyn, i raddau helaeth iawn, yn gyfuniad o'r ddarpariaeth bresennol mewn cyfres o Reoliadau, gyda rhai gwelliannau pellach.

*Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol*

Ar ôl ystyried ymhellach y materion a godwyd gan y Pwyllgorau a rhanddeiliaid yng Nghyfnod 1, rwyf hefyd wedi penderfynu cyflwyno gwelliannau i'r darpariaethau mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol yn electronig.

Roedd y darpariaethau darlledu, fel y'u drafftiwyd i'w cyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod holl gyfarfodydd y cyngor (gan gynnwys cyfarfodydd y weithrediaeth), neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor, yn cael eu darlledu, lle'r oeddent yn agored i'r cyhoedd, tra bod y cyfarfod yn cael ei gynnal. Roedd hefyd yn ofynnol i'r darllediad fod ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol o amser ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod Cyfnod 1 mynegwyd pryderon ynghylch y gofynion y byddai'r gofyniad hwn yn eu rhoi ar awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch sut y bydd y darpariaethau'n effeithio ar estyn allan i'r gymuned lle cynhelir cyfarfodydd y cyngor ar draws ardal ddaearyddol y sir, mewn mannau na allent gefnogi darlledu byw.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau sy'n dileu'r gofyniad i ddarlledu pob cyfarfod yn fyw, gyda phrif gynghorau yn hytrach yn gorfod gwneud trefniadau ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor llawn yn unig wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal. Bydd hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i weld a chlywed y cyfraniadau a wnaed gan eu cynghorwyr lleol mewn cyfarfodydd llawn o'r cyngor.

Bydd y gwelliannau yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy wneud Rheoliadau, i ychwanegu cyfarfodydd eraill at y rhestr o'r rhai y mae'n ofynnol eu darlledu. Gellir gwneud rheoliadau hefyd sy'n pennu amodau ar gyfer darlledu, a allai gynnwys materion fel pennu pa gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu'n fyw a pha rai y gellir eu recordio'n fyw a'u darlledu'n ddiweddarach. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government